W·3·7(1)40

# CAN NEWYDD

## DIDYMUS GLANGWILLY, O GAERFYRDDYN I ABERTEIFI, AR BEN Y *MAIL*.

[Y Pedwerydd Argraffiad.]

Ar ryw forau o ddeutu C'lanmai
  Myned 'ro'wn tua thy fy nhad;
Llwyr fwriadwn pan gychwynwn,
  Fyned yno ar fy nhra'd.

Wedi cychwyn o Gaerfyrddin,
  Am rhyw dipyn yn y blaen,
Wele, yn fy ngoddiweddyd,
  Mewn byr enyd, gerbyd glân.

Mi adnabum yn dra buan,
  Mai cerbydan ydoedd ef,
Tan awdurdod ei Mawrhydi
  Ar ei daith o dref i dref.

Rhoddes arwydd i'r gyriedydd,
  Mai ymdeithydd oeddwn i,
Yn 'wyllysio cael fy ngario,
  Tua'm hen artrefle cu.

Er mor llwythog oedd y cerbyd,
  Aros wnaethant yn y fan ;
Fel y gall'swn gael cyfleusdra
  I ddringo iddo yn iach i'r lan.

MORRIS DAVIES oedd y *driver*,
  'Fe ddywedai wrthyf fi,
"*Come, you beggar, step up here,*
  *Sit upon the box by me.*"

Wedi cymm'ryd fy eisteddle,
  Cychwyn wnaethom ar ein hynt,
Heibio'r *Ffrances Well* a'r Henallt,
  Heibio Abernant-y-tinc.

Gwel'd Cwmgwily, 'r enwog balas,
  Lle o urddas yw erioed,
Lle mae'r 'Sgwier Phillips fwyngu,
  Gwr o deulu mawr eu clod.

Heibio'r Bronwydd Arms fel mellten,
  Y cychwynem gyda thwrf;
Gweled ambell bedairolfen
  Ar eu taith yn d'od i'n cwrdd.

Gwel'd Cwmdwyfran, trigle diddan
  'Sgweier Morgan, wiwlan wr;
Enwog odiaeth fel amaethwr,
  Cywrain heliwr tir a dw'r

Heibio'r Capel, ger Cwmdwyfran,
  Buan y cychwynem ni;
Heibio'r *Forge*, y'mlaen i'r cwmydd,
  Lle mae coedydd ar bob tu.

Wedi cychwyn am fynydyn,
  Y'mlaen i'r dyffryn diffaith hyn;
Yr olygfa welais yno,
  Barodd imi deimlo'n syn.

Gwel'd y creigiau fel cymylau,
  Fry yn hongian uwch fy mhen,
Nes llwyr dywyllu goleu dysglaer
  Yr haulwen wiwber yn y nen.

Gwel'd yr afon oddi tanom,
  Hono'n rhuo fel rhyw gawr;
Ofni 'r oeddwn bob mynydyn,
  I syrthio dros y dibyn 'lawr.

767.6 W.

Ond fe redai'r pedwar 'nifel
  Gyda phleser yn ei gwaith,
Fel pe buasent oll yn unfryd,
  Am gyrhaeddyd pen eu taith.

Cwmgwily Arms yn fuan baswyd,
  Chwyrn garlamwyd yn y bla'n
Heibio *Rock & Fountain* hefyd,
  Y cyflymai'r cerbyd glân.

Wrth fyn'd heibio *Lodge* Blaenige,
  Wele'r udgorn yn rhoi blo'dd ;
Clyw'n y cwmmydd oll yn adsain,
  Wele finnau wrth fy modd.

Wele'n deffro pob cysgadur
  Gysgent yn eu gweliau pluf,
Gan drwst cadarn yr olwynion,
  A chan swn yr udgorn cryf.

Wedi cyrhaedd Conwyl Elfet,
  Pawb edrychent arnom ni ;
Rhai yn tremio trwy'r ffenestri,
  Safai'r lleill yn nrws y ty.

Wedi newid y ceffylau,
  Ail gychwynem ar ein hynt,
Fel y gwelech blufyn ysgafn,
  Yn cyflym hedfan yn y gwynt.

Heibio Pantyrhaidd fel mellten
  Y cychwynem yn ddifraw,
Gwel'd y cloddiau fel rhibanau,
  O bob lliwiau ar bob llaw.

Trwy Gwmduad, 'mlaen i'r mynydd
  Sydd goruwch y bronydd fry,
Teithio'n ddyfal, teithio'n rymus,
  Teithio'n hwylus oeddem ni.

W.4245

Wedi cyrhaedd pen y mynydd,
  Gwelwn beth o gyrrau'r wlad;
Gwel'd y glenydd, gwel'd y gelltydd,
  Draw o amgylch tŷ fy nhad.

Gwel'd y fro lle ces fy magu,
  Yn anwylgu gan fy mam,
Godai awydd trwy fy ysbryd,
  Am gyrhaeddyd at y fan.

Gweled dim ar hyd y mynydd,
  Ond eithin mân, a grug yn llawn,
Ac ambell hogyn bach a'i gorgwn,
  Yn gwylio' i braidd yn mhlith y mawn.

Buan colli wnes fy ngolwg,
  Ar y fro hyfrydawl draw,
Nesu oeddem erbyn hyny,
  I lawr at *Durnpike* Bwlchyclaw'.

Heibio i blâs Blaengwthan wiwfod,
  Lle mae Havard mawr ei glod,
Clywais ganwaith am ei enw,
  Y meddyg goreu fu erioed.

Myned heibio i Lwyndafydd,
  Saron ddedwydd oe'm yn awr,
Heibio eglwys plwyf Llangeler,
  Rhuthrem dros y rhiwiau i lawr.

Tua Rhydfach ro'em 'n awr yn nesu,
  Swniai'r udgorn gyda blas,
Gwelwn bedwar ceffyl gwysgi,
  Yn cychwyn o'u harosfa ma's.

Safent oll mewn agwedd wrol,
  Ar yr heol yn ddifraw,
Parod oeddynt mewn mynydyn
  Erbyn cychwyn maes o law.

Oddi yno myned wnaethom,
  Trwy ryw fro hyfrydawl iawn,
Lle mae dolydd, lle mae coedydd,
  A pherllanau oll yn llawn.

Heibio Penbont Henllan enwog,
  Sydd ar Deifi donog, ddu,
Heibio'r enwog blas Llysnewydd,
  Lle mae coedydd ar bob tu.

Myned oeddem yn galonog
  Heibio'r enwog blas Dolhaidd,
Heibio 'r dolydd gwyrdd meillionog,
  Lle'r ymbortha'r bywiog braidd.

Grym mynediad yr olwynion
  Siglai seiliau'r ddaear hon,
A tharanllyd sain yr udgorn,
  Dynau sylw 'r fro o'r bron.

Llwyr ddistawai 'r llu asgellog,
  Diwnient draw yn mrigau'r co'd,
Safent allan ar y cangau,
  I gael gweled beth sy 'n bod.

Safai 'r ychain ar y dolydd,
  Syllu arnom wnaent yn syn,
A thrigolion Pentrecagal,
  Fethent ddeall beth oedd hyn.

I mewn i Gastellnewydd Emlyn
  Yn tra sydyn daethom ni,
Safai'r cerbyd am fynydyn,
  Yn ymyl drws y llythyrdy.

Wedi cael y *mail* yn barod,
  Cychwyn wnaethom yn ddible,
Gyda chryf floeddiadau'r udgorn,
  Y 'madawsom ni â'r dre'.

Bras garlamai'r pedwar 'nifail,
Ar hyd yr eang dawel fro,
Trwy y dolydd deuai'r afon,
Yn agos atom yn ei thro.

Pan yn nesu lawr i Genarth,
Seiniau 'r udgorn yn ddigoll,
Nes oedd coedwig Gellydywyll,
Yn adseinio trwyddi oll.

Wedi myned mewn i'r pentref,
Gwelwn bedwar ceffyl glas,
Wedi eu trwsiadu 'n barod,
I'n cyfarfod doent i ma's.

Yr olwg arnynt yn y cerbyd,
Imi oedd yn hyfryd iawn,
Eu lliwiau gleision, a'u gwisgoedd duon
A'u byclau gloywon, drudion iawn.

Wedi derbyn y gorchymyn,
*Startio* 'n sydyn wnaent yn wir,
Mewn un eiliad, ar un lamiad,
Dros derfyn cydiad y ddwy sir.

Afon Teifi sy'n gwahanu
Rhwng swydd Benfro fawr ei stor,
Ceredigion 'r ochr arall,
Gyrrau 'n ddiball hyd y mor.

Oddiar y bont mi ganfum olwg
Barodd syndod im' a braw,
Gwelwn ffrydiau yno 'n debyg
I'r *Falls of Niagara* draw.

Treiglei 'r afon lawr i'r eigion,
Dros y creigiau yn ddiball,
Ei rhuadau oedd mor gryfion,
Fel nas clywem naill y llall.

Dros hoff diroedd Ceredigion,
'Roeddem yn cyflymu 'n 'awr,
Heibio Penygraig yn union,
Heibio i Alltybwla fawr.

Dros bont Aberhyrwen enwog,
Dan y bronydd coedydd sych,
Heibio i ddolydd gwyrdd meillionog,
Lle mae mwyn balasau gwych.

Heibio 'r Ddôl, a'r Stradmor enwog,
Gynt fu o ardderchog ryw,
Heibio 'r hyfryd blas Llwyndyrys,
Lle mae Griffiths fwyn yn byw.

Heibio i Abereifed enwog,
Lle godidog yn ei ddydd,
Heibio Llygad-llaca fwyngu,
Lle mae Shoni 'n *handlo 'r* gwydd,

Mewn i Lechryd aem yn ebrwydd.
Lle fu o enwogrwydd mawr,
Lle y gwariwyd myrdd o bunnau,
Yn y gweithiau cyn yn awr.

Aros wnaethom am fynydan
Yn y pentref diddan hyn,
Galwai rhai am beint o gwrw,
Galwai'r lleill am *lass of gin.*

Ond nid hir yr arosasom,
Myned wnaethom gyda blo'dd,
Dringo fyny heibio'r Capel,
Heibio efel Howy 'r gof.

Heibio i enwog Noyaddwilym,
Lle bu'r enwog ddyn yn byw;
Mr. Griffiths oedd ei enw,
Hen bregethwr o'r iawn ryw.

At ben y daith 'r oe'm 'nawr yn nesu,
Tynu atti 'r oe'm yn dyn ;
Gwel'd Llangoedmore wrth fyn'd heibio,
'Rwyf yn cofio 'nawr am hyn.

Pan yn myn'd dros Bontycleifion,
Bloeddiai'r udgorn yn ddifreg ;
Cyrhaeddasom Aberteifi,
Cyn i'r awrlais daro deg.

Ffarwel weithian, hen gerbydan,
Teithiwr buan iawn wyt ti,
Doest mewn 'chydig iawn o amser,
O Gaerfyrddin fawr ei bri.

Rhyfedd yw fod neb mor ffoled
I dreio cerdded ar eu tra'd,
Tra bo cerbyd gwych Victoria,
Yn trafaelu trwy y wlad.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.
1909.